# Parc eco

Mae rheolwr parc newydd sydd ar fin agor, yn ysgrifennu llythyr at benaethiaid ysgolion cynradd yr ardal. Dyma'r drafft cyntaf. Mae angen ei gywiro gan fod ynddo nifer o gamgymeriadau a bylchau.

Parc Eco'r Fro, ger Llanfynydd, TH34 6YY

31 Ionawr

Annwyl Benaeth

**Parc Eco'r Fro**

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi am barc newydd a fydd yn agor ar Ffordd y Mynydd, tua dwy filltir tu allan i Lanfynydd. Mae hyn yn ddablygiad cyffrous iawn a gobeithiwn y bydd miloedd o blant a phobl ifanc yr ardal yn ymweld â ni yn y dyfodol.

Bydd y parc yn agor yn swyddogol ar Fawrth y cyntaf ac fel rhan o'n cynlluniau i ddenu pobl, rydym yn cynnig ymweliad am ddim i ysgolion cynradd yr ardal yn ystod yr wythnos flaenorol, sef chwefror 20-25. Bydd ein Swyddogion Addysg ar gael i'ch tywys chi o gwmpas y parc - dylai hyn gymryd tua dau awr.

Bydd y swyddogion hyn yn rhoi blas i'r disgyblion o'r hyn bydd y parc yn ei gynnig yn y dyfodol, sef cyfleoedd i:

- hau hadau a phlannu (yn y gwanwyn fel arfer)
- tyfu llysiau a ffrwythau
- archwilio pyllau dŵr
- chwilio am greaduriaid bach
- dysgu am bywyd gwyllt
- gwneud gwaith crefft sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd
- gofalu am yr amgylchedd.

Mae dwy siop yn y parc. Mae un .......................... yn gwerthu cofroddion - llawer ohonynt wedi eu creu o bethau sydd wedi eu hailgylchu. Mae'r llall yn gwerthu pethau fel planhigion, hadau, bwyd adar, offer garddio ac ati.

Mae dau gaffi yma hefyd - un tecawê ac un caffi sy'n darparu bwyd i gwsmeriaid sydd eisiau eistedd i fwyta'u bwyd. Mae digon o leoedd picnic hefyd - yn yr awyr agored a dan do. Yn ogystal, mae siop gwerthu hufen iâr.

Rydym yn cynhyrchu ein hynni ein hunain a bydd modd i'ch disgyblion ddysgu mwy am gynhyrchu ynni - ynni'r haul ac ynni'r gwynt.

Os hoffech dderbyn .......................... o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â ni unrhyw bryd

parcyfro@llanfynydd.org.

0997 675 4444

Yn gywir

Huw Lewis